**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD AR Y CYNNIG I UNO YSGOL GYNRADD CEFN AC YSGOL GYNRADD CRAIG-YR-HESG ER MWYN SEFYDLU YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL NEWYDD**

Mewn cyfarfod Cabinet y Cyngor ar 22 Mehefin 2022, penderfynwyd cymeradwyo'r cynigion uchod i'w gweithredu cyn mis Medi 2026.

Derbynwyd un gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod hysbysiad statudol ac, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, aethpwyd ati i ysgrifennu Adroddiad Gwrthwynebiad. Mae modd gweld copi o'r adroddiad yma ar wefan y Cyngor trwy ddilyn y ddolen isod. Mae modd cael copïau papur ar gais.

Cafodd y rhesymau dros y cynnig, a'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad yma eu nodi'n llawn a'u hesbonio yn y ddogfen ymgynghori a gafodd ei dosbarthu'n eang yn gynharach eleni. Dylid nodi'r rhesymeg gadarn dros wneud y penderfyniad yn ogystal â'r gefnogaeth arwyddocaol ar gyfer y prosiect yma yn ystod y cyfnod ymgynghori.


Yn y pendraw, penderfynodd y Cabinet bod y buddion mae modd eu cyflawni trwy roi'r cynnig yma ar waith yn hollol gadarnhaol. Bydd y cynnig yn darparu:

- Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg a chyfleusterau hygyrch i bob disgybl.
- Ardaloedd dan do ac awyr agored i'r gymuned leol.
- Gwell lleoedd awyr agored i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm, gan gynnwys ystafell ddosbarth awyr agored ac ardal 'ysgolion coedwig'.
- Rheolaeth traffig gwell ar y safle.
- Adeilad Carbon Sero-Net sy'n cefnogi Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor ar gyfer 2021-2025 a'r nod uchelgeisiol o fod yn Gyngor carbon niwtral erbyn 2030, yn ogystal â Chynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Carbon Isel a'i gynllun i ddad-garboneiddio'r sector gyhoeddus yng Nghymru.

Y prif newid fydd gwelliant yn ansawdd y ddwy ddarpariaeth addysgol gyfredol, a dylai hyn gael effaith sylweddol ar gyflawniad addysgol y disgyblion.

Yn seiliedig ar y deilliannau yma, penderfynodd y Cabinet i gymeradwyo'r cynnig yma.

Yn gywir,



**Cyfarwyddwr Addysg a** Gwasanaethau Cynhwysiant